



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru

Canllaw i
Ffermio glaswelltir sy'n hybu peillwyr



Yn gweithio mewn partneriaeth â



Chwefror 2021



Pam bod angen i ni warchod peillwyr?

Cafwyd digon o dystiolaeth o ostyngiad yn nifer y peillwyr ac mae angen gweithredu ar frys i geisio atal y gostyngiad a'i wrthdroi. Mae pryfed sy'n peillio yn bwysig oherwydd y cyfraniad y maent yn ei wneud at gynhyrchu bwyd yn ogystal â pheillio cynydau masnachol nad ydynt yn fwyd ac wrth gwrs, blodau gwyllt. Pan sonnir am bryfed sy'n peillio mae'n duedd rhoi pwyslais ar y gwenyn ond mae llawer o bryfed eraill gan gynnwys gwenyn meirch, gwybed, chwidod, gloŷnnod byw a gwyfynod sydd yr un mor bwysig.


Yn y Deyrnas Unedig mae tua 270 rhywogaeth o wenyn cynhenid sy'n cynnwys 1 wenynen fêl, 245 o rywogaethau o wenyn unigol a 24 rhywogaeth o gacwn.



Mae cacwn yn ymwelwyr cyfarwydd i ffermydd a gerddi ond mae eu niferoedd wedi gostwng yn sylweddol o ran eu hamlder a'u dosbarthiad. Mae nifer o ffactorau yn gyfrifol am y gostyngiadau yma gan gynnwys dwysau amaethyddol a'r trefoli cynyddol. Ers yr 1940au, mae 98% o'r glaswelltir llawn blodau wedi cael ei golli yn y Deyrnas Unedig.

Amcangyfrifwyd bod gwerth peillwyr i ffermio yn y Deyrnas Unedig yn £500 miliwn ond oherwydd bod y gwasanaeth hwn yn digwydd gydag ychydig iawn o ymyrraeth gan y ffermwr, mae'n cael ei ddiystyru i raddau helaeth. Mae angen amrywiaeth o beillwyr i beillio planhigion gwahanol. Er enghraifft, mae gan rywogaethau gwahanol o gacwn dafodau o hyd gwahanol ac maent yn addas ar gyfer casglu neithdar ar rywogaethau gwahanol o blanhigion, a thrwy hynny, eu peillio. Mae gwenyn mêl yn rhagorol am beillio coed afalau neu feillion gwyn ond oherwydd bod eu tafod yn fyr iawn mae'n golygu nad ydyn nhw'n dda ar gyfer cynydau fel ffa neu feillion coch, mae'n well gadael y rhain i gacwn cynffon hir.

Mae llawer o'r ymchwil ar gynyddu niferoedd peillwyr wedi canolbwyntio ar gynhyrchu ar dir âr, ond mae rôl hefyd ar gyfer ffermwyr da byw, yn arbennig yng Nghymru gan mai glaswelltir yw'r brif nodwedd.



Derbyniodd grŵp o ffermwyr organig o gwmni cydweithredol llaeth Calon Wen gyllid gan brosiect Partneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru. Roedd y prosiect hwn, sef Porfeydd ar gyfer Peillwyr, yn edrych ar wella argaeledd porthiant ar gyfer cacwn ar eu ffermydd heb amharu ar eu busnesau ffermio.

Beth sydd ar gacwn ei angen?



Cacynen wryw gynnar ar fieri, Anna Hobbs

Mae ar gacwn angen cyflenwad parhaus o flodau er mwyn cael y neithdar llawn egni a'r pail llawn protein.

Yn Chwefror a Mawrth bydd breninesau'r cacwn yn ymddangos ar ôl gaeafgysgu a bydd arnynt angen ffynhonnell fwyd ar unwaith er mwyn eu galluogi i sefydlu eu nythod. Trwy gydol y gwanwyn a'r haf bydd arnynt angen digonedd o flodau i gasglu bwyd i'r cacwn ifanc ac yna hyd at yr hydref hwyr pan fydd y frenhines newydd yn casglu bwyd yn barod i aeafgysgu.

Yn ail, mae ar gacwn angen cynefinoedd addas i nythu a gaeafgysgu. Gallai'r rhain fod yn wrychoedd neu'n ardaloedd gyda gwair twmpathog.

Mae gan beillwyr eraill anghenion gwahanol, er enghraifft mae llawer o bryfed hofran, sydd hefyd yn beillwyr pwysig, angen dŵr i gyfannu eu cylched bywyd.


Mae ar oedolion gloŷnnod byw a gwyfynod angen blodau ar gyfer eu bwyd ond mae ar y larfa angen planhigion bwyd penodol. Bydd llawer o beillwyr

yn defnyddio safleoedd torheulo, e.e. pridd moel i gynhesu eu hunain er mwyn bod yn weithredol cyn y gallant hedfan i gasglu bwyd.

Mae'r llyfryn hwn yn dwyn at ei gilydd rai o'r camau y gall ffermwyr anifeiliaid eu cymryd i gynyddu niferoedd y peillwyr ar eu ffermydd. Mwyaf yn y byd o gamau y gellir eu gweithredu, gorau yn y byd fydd hi, ond mae'n bwysig cofio y bydd newidiadau bychain iawn yn unig yn helpu pryfed sy'n peillio.



Ble gallaf helpu peillwyr ar fy fferm?



Ble gallaf helpu peillwyr ar fy fferm?

Ymylon Caeau

- Heuwch wndwn llawn codennau mewn caeau silwair ochr yn ochr â gwndwn arferol sy'n cynnwys rhygwellt gyda meillion coch a gwyn.
- Gadewch ymyl heb ei thorri neu ei phori pan fydd cae yn cael ei dorri ar gyfer silwair, neu pan fydd yn cael ei bori, er mwyn i rywfaint o borthiant y peillwyr gael ei gadw yn hytrach na mynd o 'wledd i newyn'. Dylai'r ymylon hyn fod yn lleiafswm o 2m o led.
- Erbyn i ymylon y caeau aeddfedu, bydd y planhigion yng ngweddill y cae wedi dechrau blodeuo, a gall y peillwyr symud yn ôl i'r cae.
- Torrwch neu borwch yr ymyl yn ystod y toriad silwair neu sesiwn bori nesaf a gadael ymyl arall heb ei thorri neu ei phori ar ochr arall y cae.

Cyrion Gwrychoedd

- Gadewch i flodau gwyllt barhau ar gyrion gwrychoedd mewn caeau silwair trwy adael darn heb ei drin o gwmpas ymyl y cae.
- Dylai'r ymylon hyn fod yn lleiafswm o 2m o led.
- Peidiwch â thorri cyrion y gwrychoedd nes bydd y blodau gwyllt wedi blodeuo a mynd i had. Yn ogystal â chynnig bwyd i beillwyr mae hyn yn caniatáu i'r blodau gwblhau eu cylch bywyd gan gynnig bwyd i beillwyr yn y blynyddoedd canlynol.
- Gadewch i ddarnau o laswellt twmpathog ddatblygu ar ymylon gwrychoedd sy'n wynebu'r de/de ddwyrain a'r gogledd er mwy cynnig cynefin i nythu a gaeafgysgu yn eu tro.
- Ar gyfer ardaloedd nythu a gaeafgysgu, gadewch heb ei dorri am 2-3 blynedd iddo fynd yn dwmpathog.

Glaswellt Parhaol Llawn Blodau

- Rheolwch laswelltir heb ei wella neu wedi ei wella yn rhannol er mwyn y peillwyr, e.e. pori glaswellt cyn i flodau gwyllt ddechrau blaguro, wedyn lleihau neu waredu pwysau pori er mwyn caniatáu i'r blodau amlhau.
- Cyflwynwch hadau blodau megis meillion i laswelltir llai amrywiol.
- Gellir ystyried adfer glaswelltir wedi ei wella mewn rhai caeau trwy adael i ffrwythlondeb y pridd ostwng, gan fod blodau gwyllt fel arfer angen priddoedd sy'n cynnwys llai o faetholion. Rheolwch y glaswellt i leihau ei rym, yn arbennig glaswelltau garw.
- Torrwch yn hwyrach yn yr haf er mwyn i flodau gwyllt greu hadau.
- Ni ddylid defnyddio gwrtaith na chwynladdwyr ger ardaloedd blodau gwyllt.
- Gadewch i anifeiliaid fagio rhywfaint i greu darnau o bridd moel y gall blodau gwyllt fwrw had iddynt.

Banciau a Ffogydd

- Mae darnau o bridd moel ar y banciau dan wrychoedd yn cynnig mannau i beillwyr dorheulo a nythu.
- Gadewch i laswellt twmpathog ddatblygu ar fanciau dan wrychoedd sy'n wynebu'r de/ de ddwyrain a'r gogledd er mwy cynnig cynefin i nythu a gaeafgysgu i gacwn.
- Rheolwch ffogydd ar gylchdro fel bod ffogydd ar gyfnodau gwahanol ar draws y fferm ac felly ni fydd y cynefin i gyd yn cael ei golli ar unwaith.
- Anelwch at gynyddu'r cyfnod rhwng clirio ffogydd heb effeithio ar weithrediad y ffos.
- Gadewch lain glustogi bob ochr i'r ffos i'w diogelu.
- Torrwch y llystyfiant ar ymylon y ffos ar gylchdro 2 - 5 mlynedd ac yn ddelfrydol dim ond torri hanner y llystyfiant o gwmpas y ffos mewn unrhyw flwyddyn unigol.

Cynefin Gwrychoedd ac Ymylon Coetiroedd

- Rheolwch wrychoedd ar gylchdro 2 - 3 blynedd er mwyn iddynt aeddfedu a chynhyrchu blodau.
- Anelwch at dorri tua thraean o'r gwrychoedd yn flynyddol.
- Llenwch y bylchau gyda rhywogaethau a dyfwyd yn lleol a fydd yn cynnig bwyd i beillwyr, fel helygen lwyd, crabats, drain a rhywogaethau rhosod.
- Sicrhewch bod coed aeddfed yn y gwrychoedd yn cael eu rheoli er mwyn iddynt gynnig bwyd i beillwyr. Os bydd rhywogaethau fel helygen lwyd yn cael blodeuo gallant gynnig bwyd hanfodol i freninesau cacwn pan fyddant yn ymddangos o aeafgysgu yn y gwanwyn.
- Ceisiwch wella ymylon coetiroedd trwy adael i rywogaethau prysgoed, fel mieri, eiddew a rhosod i dyfu, yn ogystal â llystyfiant hwy, gan gynnwys glaswelltau a llysiau fel y farddanhadlen wen a du.

Nodweddion gwlyb e.e. pyllau a'u glannau

- Gwnewch yn siŵr bod y dŵr yn glir a bod lefelau'r maetholion yn isel.
- Y pyllau mwyaf cynhyrchiol yw'r rhai sydd ag ymyl lydan fas.
- Gellid creu llain glustogi sylweddol o gwmpas y pwll i sicrhau na fydd yr hyn sy'n cael ei wasgaru ar y cae'n cyrraedd y pwll.

Ymylon Traciau

- Annog y blodau gwyllt presennol i flodeuo a'u hannog i ledaenu trwy dorri/porri ar ôl y tymor tyfu.
- Os na fydd llawer o flodau gwyllt ar ymylon y traciau, ychwanegwch hadau e.e. meillion coch.



Fel rhan o brosiect EIP Cymru, aeth chwe ffermwr o gwmni cydweithredol llaeth organig Calon Wen ati i weithredu cyfres o ymyraethau gyda’r nod o gynyddu niferoedd y peillwyr ar eu ffermydd. Mae’r astudiaethau achos canlynol yn amlygu cyfran o’r hyn a gyflawnwyd ganddynt.



Astudiaeth Achos 1: Fferm Argoed, Yr Wyddgrug

Ar Fferm Argoed llwyddwyd i adael ymylon caeau heb eu torri a’u pori fel rhan o’r patrymau torri a phori. Gadawyd yr ymylon yma mewn gwndwn llysieuol amrywiol heb eu torri trwy gydol y tymor blodau i gynnig mwy o fwyd i beillwyr.

Mae’r rhan fwyaf o’r caeau ar y daliad yn cynnwys gwndwn hŷn, modern o feillion gwyn a rhygwellt. Mae’r meillion gwyn yn y gwndwn yn cynnig bwyd i rywogaethau cacwn sydd â thafodau byr. Mae’r ffermwr hefyd wedi bod yn treialu ‘crafu’ hadau gwndwn llysieuol i wndwn hŷn. Mae’n ymddangos bod y dull hwn o gyflwyno amrywiaeth ehangach o blanhigion i gaeau sydd wedi cael eu gwella yn gweithio a gwelwyd amrywiaeth eang o gacwn tafod hir a byr yn ogystal ag amrywiaeth o beillwyr eraill.

Trwy oedi cyn torri cyfran o’r cae, roedd y plahigion yn y gwrychoedd gwrychoedd heb eu torri roedd y planhigion yn y gwrychoedd yn cael blodeuo, gan gynnig porthiant pwysig yn y gwanwyn i beillwyr yn ogystal â ffynonellau pail a neithdar yn hwyrach yn y tymor.

Mae dau barsel o borfa barhaus yn cael eu rheoli mewn modd sy’n cyd-fynd â’i gilydd. Mae’r cae gwair yn cael ei reoli mewn modd sy’n sicrhau’r bioamrywiaeth orau. Mae cae arall yn cael ei reoli i leihau ffrwythlondeb y pridd, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar niferoedd y blodau gwyllt.

Nodwedd bwysig arall ar Fferm Argoed, sy’n bodoli ar lawer o ffermydd, yw’r berllan a’r ardd lysiau. Mae perllannau ac ardaloedd coediog eraill yn cynnig blodau pwysig yn y gwanwyn cyn i lawer o flodau gwyllt y caeau ddechrau tyfu.



Astudiaeth Achos 2: Cop House Farm, Saltney Ferry, Gogledd Cymru

Canolbwyntiodd Cop House Farm ar greu gwelyau o flodau gwyllt ar ymylon caeau gan ddefnyddio’r deunydd a godwyd wrth glirio ffosydd. Gadawyd i’r planhigion sefydlu yn naturiol o’r hadau yn y pridd ac fe wnaeth digonedd o flodau gwyllt gynnig ffynhonnell fwyd ddigonol i’r nifer o beillwyr trwy gydol yr haf.

Gadawyd stribedi ar ymylon caeau heb eu torri neu heb eu pori hefyd yn Cop House Farm trwy gydol y tymor. Roedd y gymysgedd o rywogaethau yn y gwndwn llysieuol hwn yn rhoi cyflenwad cyson o borthiant i’r peillwyr tra’r oedd caeau wedi eu torri neu eu pori wedi adfer.

Rheolir y gwrychoedd mewn cylchdro gan adael i rai ardaloedd dyfu yn ddigon aeddfed i flodeuo sy’n cynnig porthiant yn y gwanwyn i beillwyr pan na fydd llawer o fwyd arall ar gael.

Mae’r delweddau yma yn dangos sut y mae blodau gwyllt yn cael eu hannog ar hyd terfynau caeau ac ochrau llwybrau ar draws y fferm gan gynnig porthiant i bryfed yn ogystal â safleoedd nythu a gaeafgysgu addas. Mae blodau gwyllt tir â’r e.e. glas yr ŷd, melyn yr ŷd, troellig yr ŷd, mwstard gwyllt, trilliw, mwg-y-ddaear cyffredin, llygad llo mawr, marddanhadlen goch, y ganwraidd goch a phabi yn gyffredin ar draws y fferm yn y cnydau grawn ac yn rhoi porthiant i beillwyr yn ogystal â chynnig cynefin ar gyfer pryfed rheibus sy’n gallu helpu i reoli pryfed glas.



Astudiaeth Achos 3: Bwlchwernen Fawr, Llanbedr Pont Steffan

Ym Mwlchwernen Fawr roedd y pwyslais ar sut y gallai’r fferm gyfan wneud gwell darpariaeth i beillwyr. Roedd hyn yn cynnwys edrych ar ddulliau rheoli’r rhwydwaith sylweddol o fanciau a ffosydd yn ogystal â chadw rhai caeau heb eu gwella oedd yn cynnig cynefin da i wenyn.

Un o nodau’r prosiect oedd ceisio gadael ymylon heb eu torri neu heb eu pori mewn caeau pori a silwair ond roedd hyn yn creu problemau ar y safle hwn. Nid oedd y negeseuon yn cael eu cyfleu yn llwyddiannus i’r contractwyr oedd yn torri’r caeau bob tro gan arwain at dorri ardaloedd y cynllun treialu ar ddamwain ac roedd problemau hefyd gyda’r gwartheg yn torri trwy ffensys ac yn cael mynediad i’r ardaloedd yma. Roedd y rhain yn wersi pwysig o ran ochr ymarferol gweithredu rhai o’r ymyraethau sy’n cael eu hargymell i gynyddu niferoedd y peillwyr.

Mae’r banciau a’r ffosydd hael sydd ar y fferm yn cynnig amrywiaeth eang o blanhigion porthiant gan gynnwys; carpiog y gors, ysgallen y gors, pysen y ceirw fawr, tresgl y moch, bysedd y cŵn, llysiau’r angel, llus ac eithin. Yn ychwanegol, mae’r banciau yn cynnig cynefin nythu a gaeafgysgu i gacwn a pheillwyr eraill. Mae pridd moel ar rai o’r banciau sy’n wynebu’r de/ de-ddwyrain yn cynnig safleoedd nythu i wenyn unigol ac ardaloedd i beillwyr dorheulo i ddod yn weithredol. Gobeithir y gellir rheoli’r banciau a’r ffosydd hyn ar gylchdro yn y dyfodol er mwyn cadw’r cynefin gwerthfawr hwn ar y fferm bob blwyddyn.

Gyda chaeau heb eu gwella i’r fath raddau, yn benodol glaswelltir corsio heb ei wella, roedd yr awgrymiadau rheoli yn ystyried ffyrdd o gadw’r cynefin gwerthfawr hwn a gadael iddo flodeuo yn ystod yr haf, er mwyn darparu ar gyfer peillwyr a galluogi’r blodau gwyllt i gynyddu.



Astudiaeth Achos 4: Fferm Cornish, Wrecsam

Mae gan Fferm Cornish amrywiaeth eang o gynefinoedd a chasgliad da o rywogaethau o flodau gwyllt ar draws y fferm. Mae ymylon y gwrychoedd yn arbennig o bwysig oherwydd y blodau gwyllt sydd ynddynt fel ffacbys, gorthyfail, erwain, blodyn menyngol, rhwyddlwyn y maes, briallu Mair, ffacbys y berth, pys y ceirw, briwlys y gwrych, pengaled, llysiau’r groes, ytbyys y ddôl a milddail. Er mwyn helpu i’r ardaloedd yma barhau awgrymwyd gadael ymyl dau fetr o hyd heb ei drin ac atal unrhyw bori neu dorri nes bydd y blodau wedi ffurfio hadau. Mae’r gwrychoedd eu hunain yn llawn o rywogaethau ac mae hyn yn cynnig ffynhonnell neithdar a phaill cynnar i bryfed sy’n peillio. Bydd rheoli’r rhain ar gylchdro dwy neu dair blynedd yn sicrhau bod ardaloedd aeddfed ar gael bob amser i gynhyrchu digon o flodau.

Mae blodau gwyllt yn doreithiog ar ochrau llwybrau Fferm Cornish. Gall yr ochrau llwybrau yma gael eu rheoli trwy dorri ar ôl i’r blodau greu hadau a phan fydd yn ymarferol gadael i blanhigion fel ysgall, mieri a chyingaf dyfu gan eu bod yn ffynonellau bwyd gwerthfawr dros ben i beillwyr.

Mae gan Fferm Cornish rwydwaith o byllau hefyd, sy’n cynnig amrywiaeth anferth o beillwyr a bywyd gwyllt arall. Mae’r blodau gwyllt ar ymylon y pyllau yn cynnwys pys y ceirw, gellesg, pengaled, ffacbys a ffacbys y berth. Rhaid i byllau gael eu rheoli i gadw dŵr agored a rhaid i’r ardaloedd o flodau gwyllt o gwmpas y pwll gael eu monitro i atal y glaswellt garw a’r prysgwydd rhag meddiannu’r lle.



Cynaeafu silwair mewn modd sy'n garedig i wenyn

Cynaeafu silwair:
Bydd gadael sribyn 2-4 metr o borthiant heb ei dorri ar hyd ochrau caeau yn darparu blodau lle gall wenyn a pheillwyr eraill chwilota am fwyd.

Gyda phob toriad:
Gallwch gynaeafu'r sribyn heb ei dorri'n flaenorol, ond gadewch sribyn arall heb ei dorri ar ochr arall y cae.

Mae gadael ardaloedd sy'n cynnwys blodau aeddfed heb eu torri yn darparu neithdar a phaill gwerthfawr ar gyfer ystod eang o bryfed gan gynnwys gwenyn. Bydd pryfed buddiol yn bwyta plâu megis llyslau, peillio cnydau megis meillion neu'r afalau yn y berllan a darparu ffynhonnell fwyd ar gyfer adar a mamaliaid bychain.

Manteision gwyndonnydd amlrywogaeth

Gall tannin mewn perlysiâu helpu i reoli llyngyr parasitig mewn modd naturiol a fydd yn lleihau dibyniaeth y ffermwr ar driniaethau anthelmintig.

Mae planhigion gyda gwreiddiau dwfn yn amsugno mwy o faetholion gan ddarparu fitaminau a mwynau pwysig ar gyfer yr anifeiliaid.

Gall perlysiâu gyda gwreiddiau dwfn helpu i leihau cywasgiad pridd, cynyddu lefelau ocsigen yn y pridd a gwella draeniad

Mae planhigion codlysiâu yn sefydlogi nitrogen gwerthfawr yn y pridd sy'n gallu lleihau'r angen ar gyfer gwrteithiau

Manteision gwndwn llysieuol

Roedd defnyddio gwndwn llysieuol ar draws y ffermydd yn y prosiect hwn yn hanfodol am nifer o resymau. Nod y prosiect oedd cynyddu niferoedd y peillwyr a chyflawnwyd hynny os oedd blodau ar gael iddynt. Roedd y gwndwn llysieuol yn helpu o ran hyn yn y caeau pori a silwair ac roedd gadael ymylon heb eu torri neu heb eu pori yn bwysig eithriadol ar gyfer darparu cyflenwad parhaus o flodau i'r gwenyn a phryfed eraill.

Mantell paun ar ysgall ymlusgol, Anna Hobbs



Heblaw am eu gwerth i bryfed sy'n peillio, mae gwndwn llysieuol hefyd o fantais mewn system dda byw.

Bydd y codennau yn y gwndwn yn sefydlogi nitrogen ac yn helpu i gynyddu ffrwythlondeb y pridd, rhywbeth sy'n bwysig iawn mewn system organig. Maent hefyd yn llawn maeth i anifeiliaid gan gynyddu cynnwys protein y porthiant. Mae llawer o'r planhigion mewn gwndwn llysieuol yn gwreiddio'n ddwfn, gan eu galluogi i wrthsefyll cyfnodau sych yn well a chofnodir eu bod yn hwyluso trosglwyddo mwynau o ddyfnder yn y pridd, gan sicrhau eu bod ar gael i'r anifeiliaid.



Gwartheg ar un o ffermydd y prosiect

Beth wnaeth y prosiect EIP yng Nghymru ganfod?

Cafodd y ffermwyr a gymerodd ran yn y prosiect Porfa i Beillwyr bleser mawr o weld niferoedd y cacwn ar eu ffermydd yn cynyddu.

Dengys hyn nad dim ond mater o litrau o laeth neu gilogramau o gig yw ffermio ond ei fod hefyd yn ymwneud â manteision i fywyd gwyllt y gallir eu cael trwy ddefnyddio dulliau ffermio sensitif.

Yn yr un modd â phob fferm, mae llawer o gynefinoedd addas posibl, ond canolbwyntiodd y prosiect hwn ar allu ymylon heb eu torri a'u pori mewn caeau silwair neu bori i gynnig cyflenwad parhaus o flodau i bryfed. Dan batrymau pori neu dorri arferol mae unrhyw flodau yn y caeau yn cael eu torri neu eu pori ar yr un pryd ac felly mae argaeledd blodau i'r pryfed yn mynd o 'wledd i newyn' yn gyflym iawn.

Roedd o ddiddordeb hefyd astudio a yw gadael ymylon heb eu torri neu eu pori yn ymarferol i'r ffermwr. Yn y rhan fwyaf o achosion fe'i cyflawnwyd yn llwyddiannus ond fe wynebwyd problemau pan oedd contractwyr yn gyfrifol am dorri caeau ac nad oedd negeseuon i adael darnau heb eu torri wedi eu deall.



Glesyn cyffredin ar lyriad yr ais, Anna Hobbs

Crynodeb o ganfyddiadau'r prosiect EIP yng Nghymru

- Nid oedd yn ymddangos bod y gwenyn/cacwn yn ffafrio unrhyw flodau penodol yn y gwndwn gan ddangos ei bod yn bwysig cael cymysgedd o flodau.
- Roedd mwy o flodau ar yr ymylon a adawyd heb eu torri neu heb eu pori ac roedd hyn nid yn unig yn cynyddu'r nifer o beillwyr ond hefyd yn cynyddu'r amrywiaeth o rywogaethau.
- Dangosodd canlyniadau arolygon bod peillwyr yn dechrau defnyddio'r ymylon heb eu torri i gael bwyd o'r amser y mae'r planhigion yn y gwndwn yn dechrau blodeuo ym Mai, felly mae'n ddefnyddiol gadael ymylon caeau o'r toriadau silwair cyntaf.
- Roedd y nifer o beillwyr yn sylweddol uwch mewn gwndwn llysieuol mewn cymhariaeth â'r gwndwn rhygwellt a meillion arferol. Roedd rhai ffermydd hefyd yn tyfu cnydau o faglys rhuddlas gyda meillion, a cheirch gyda phys cnwd cyfan, ac roedd y rhain hefyd yr un mor ddeniadol i beillwyr â'r gwndwn llysieuol.
- Nid yw'r holl ymylon yn gyfartal. Y rhai nad ydynt yn y cysgod ac yn cynnwys y nifer fwyaf o flodau sy'n creu'r ymylon gorau i beillwyr. Felly, mae angen ystyried lleoliad ymylon.
- Yn gyffredinol, mae'r deilliannau yn gymharol syml. Mae peillwyr yn cael eu denu at flodau ac nid yw'n ymddangos eu bod yn dangos ffafraeth gref i'r lleoliad na chynnwys y darnau o flodau. Mwyaf yn y byd o flodau sydd mewn ardal, mwyaf yn y byd o beillwyr sy'n cael eu denu. Mae cynnal olyniaeth o flodau trwy gydol y tymor yn cynnal niferoedd y peillwyr a'u hamrywiaeth.
- Roedd y mesurau wedi gweithio'n dda o fewn systemau organig y ffermydd hyn. Roedd y ffermydd eisoes yn defnyddio canran uchel o feillion yn y borfa â gwndwn llysieuol, ac ni wnaeth yr ymylon a adawyd heb eu torri neu heb eu pori effeithio ar gynhyrchedd cyffredinol y ffermydd.

Am fwy o wybodaeth ar brosiect Porfa i Beillwyr EIP yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/cyswlltffermio

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â ffermio ar gyfer bywyd gwyllt, ewch i www.farmwildlife.info